JUDICIAL
APPOINTMENTS
COMMISSION

. . . . . .

Pecyn Gwybodaeth:

00459: Barnwr Mewnfudo Cyflogedig y Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo

. . . . . .

CYNNWYS

CYFLWYNIAD 1
A YDYCH YN GYMWYS? 2
ADDASIADAU RHESYMOL.....5
DISGRIFIAD SWYDD 5
Y BROSES DDETHOL 7
CYSYLLTIADAU A RHAGOR O WYBODAETH.....11
CANOLWYR A ENWEBIR GAN Y COMISIWN 13
COMISIYNWYR Y COMISIWN PENODIADAU BARNWROL.....14

CYFLWYNIAD

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (CPB) bellach yn gwahodd ceisiadau am swydd Barnwr Mewnfudo Cyflogedig y Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo.[1] Gofynnwyd i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ddewis 21 o ymgeiswyr addas i'w penodi. Mae'r Ardal Fusnes yn disgwyl y bydd rhaglen dreigl o benodiadau'n cael ei chyflwyno ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Bydd 11 swydd wag yn cael ei llenwi ar unwaith o'r rhestr a ganlyn: Birmingham (2 swydd wag), Bradford (2 swydd wag), De Orllewin Llundain - Hatton Cross (5 swydd wag), Casnewydd (1 swydd wag) a Stoke (1 swydd wag). Caiff y 10 ymgeisydd sy'n weddill eu rhoi ar restr a'u penodi pan fydd swyddi gwag eraill yn codi yn y dyfodol.

Ar gyfer y swyddi heriol hyn bydd angen lefel uchel o sgiliau a phrofiad mewn delio ag achosion sy'n gymhleth yn gyfreithiol ac yn ffeithiol gan sicrhau safonau uchel wrth reoli achosion. Disgwylir i chi hefyd hyrwyddo amgylchedd colegol ar draws y Tribiwnlys.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr wybodaeth y bydd ei hangen arnoch am y penodiadau. Mae'n cynnwys y meini prawf cymhwysedd a'r disgrifiad swydd. Mae hefyd yn disgrifio'r broses ddethol y bydd y Comisiwn yn ei dilyn, gan nodi'r dyddiadau perthnasol a chynnig cyngor ynghylch sut mae paratoi ar gyfer gwahanol gamau'r broses hon.

Cyn y gellir ystyried eich penodi, ceir gofynion cymhwysedd y mae'n rhaid i chi eu bodloni (gweler Tudalen 2). Mae'n rhaid i'r Comisiwn asesu eich cymeriad hefyd. Cyn i chi ymgeisio, dylech ddarllen y gofynion hyn a'r canllawiau a ddefnyddir gan y Comisiwn i asesu eich cymeriad. Gellir gweld y rhain ar ein gwefan (www.judicialappointments.gov.uk) ynghyd â braslun o delerau ac amodau'r gwasanaeth a'r telerau penodi ar gyfer y swyddi hyn. Bydd gofyn i chi hefyd ddangos y rhinweddau a'r galluoedd sy'n ofynnol ar gyfer y swydd hon (gweler y ffurflen gais).

Corff annibynnol yw'r Comisiwn, a'r corff hwn sy'n dethol ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol. Bydd yn gwneud hynny ar sail teilyngdod, drwy gystadleuaeth agored a theg, drwy ddethol o blith y dewis ehangaf o ymgeiswyr cymwys.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd 28 Ionawr 2010.

---

[1] O 15 Chwefror 2010 ymlaen (h.y. pan gaiff dyletswyddau'r Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo eu trosglwyddo i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf) caiff y swydd ei galw'n Farnwr Mewnfudo Cyflogedig y Tribiwnlys Haen Gyntaf Lloches a Mewnfudo.

A YDYCH YN GYMWYS?

I fod yn gymwys i'ch penodi'n Farnwr Mewnfudo Cyflogedig y Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo, rhaid i chi fodloni'r gofynion canlynol.

Nid y meini prawf isod yw'r unig feini prawf a bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos y rhinweddau a'r galluoedd sy'n ofynnol ar gyfer y swydd hon.

Gofyniad statudol

Dan Baragraff 1 Atodlen 4 Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2002, fel y'i diwygiwyd ym mharagraff 2 Atodlen 1 Deddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr ac ati) 2004, a pharagraff 37 Atodlen 10 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, mae'n rhaid i unigolyn sy'n gymwys i gael ei benodi fel aelod o'r Tribiwnlys fodloni'r canlynol—

1. (a) bodloni'r amod cymhwysedd ar gyfer penodiad i swydd farnwrol ar sail 5 mlynedd,

   (b) bod yn adfocad neu fargyfreithiwr yn yr Alban ers 5 mlynedd o leiaf,

   (c) bod yn aelod o Far Gogledd Iwerddon, neu'n dwrnai yn Llys Barnweiniaeth Gogledd Iwerddon ers pum mlynedd o leiaf;

   (d) ym marn yr Arglwydd Ganghellor, bod wedi ennill profiad cyfreithiol sy'n gwneud yr unigolyn yn addas i'w benodi fel petai wedi bodloni paragraff (a), (b) neu (c), neu

   (e) ym marn yr Arglwydd Ganghellor, bod wedi ennill profiad heb fod yn gyfreithiol sy'n gwneud yr unigolyn yn addas i'w benodi.

2. Caiff unigolyn a benodir dan is-baragraff (1)(a) i (d) ei alw'n aelod wedi'i gymhwyso'n gyfreithiol o'r Tribiwnlys.

Er mwyn cyflawni'r cymwysterau statudol ar gyfer penodi, rhaid i dwrnai (neu ddeilydd swydd barnwrol cyflogedig a fu'n dwrnai gynt) fod ar y Rhôl.

Ar gyfer y rheini sydd wedi cymhwyso yng Nghymru a Lloegr, mae Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 wedi cyflwyno'r **amod cymhwysedd penodiad barnwrol'.** Lle mae hyn yn berthnasol, nid yw cymhwyso ar gyfer swydd farnwrol yn seiliedig bellach ar feddu ar hawl i ymddangos am gyfnod penodol. Bydd yn rhaid i chi ddangos:

- eich bod yn meddu ar gymhwyster cyfreithiol perthnasol;
- am y cyfnod gofynnol; ac
- wrth feddu ar y cymhwyster hwnnw rydych wedi bod yn ennill profiad cyfreithiol fel y pennir yn adrannau 52(2) i (5) Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, ac mae'n ymwneud â chyfnod mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r gyfraith.

<u>Cymhwyster Perthnasol yng Nghymru a Lloegr</u>

Mae gennych gymhwyster perthnasol os ydych yn dwrnai, yn fargyfreithiwr ynteu'n Gymrawd yn Sefydliad y Gweithredwyr Cyfreithiol.

Fe'ch ystyrir yn gymwys fel twrnai pan fydd eich enw wedi'i osod am y tro cyntaf ar y rhôl a gedwir dan adran 6 Deddf Twrneiod 1974. Fe'ch ystyrir yn gymwys fel bargyfreithiwr:

a) pan fyddwch wedi cwblhau'ch cyfnod disgybledd yng nghyswllt dod yn fargyfreithiwr, neu

b) os nad oes raid i chi gwblhau cyfnod disgybledd yng nghyswllt dod yn fargyfreithiwr, pan gewch eich galw i Far Cymru a Lloegr.

Pan fyddwch yn ymgeisio am benodiad barnwrol o dan (b), bydd angen i chi roi manylion pam nad oes raid i chi gwblhau cyfnod disgybledd ar y Ffurflen Gais.

Profiad Cyfreithiol

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer penodiad barnwrol, rhaid ichi nid yn unig fod yn berchen ar y cymhwyster perthnasol, ond rhaid ichi hefyd fod wedi bod yn ymwneud â 'gweithgarwch cysylltiedig â'r gyfraith' a chithau'n dal y cymhwyster hwnnw.

Ystyr Gweithgarwch Cysylltiedig â'r Gyfraith

Ystyrir bod gweithgarwch yn weithgarwch cysylltiedig â'r gyfraith, ni waeth a yw'r gweithgarwch hwnnw'n cael ei wneud am dâl neu beidio ac ni waeth a yw'r gweithgarwch yn weithgarwch amser llawn ynteu'n weithgarwch rhan amser.

Mae pob un o'r canlynol yn weithgarwch perthnasol sy'n gysylltiedig â'r gyfraith;

a) Cyflawni swyddogaethau barnwrol unrhyw lys neu dribiwnlys

b) Gweithredu fel cyflafareddwr

c) Ymarfer neu fod yn gyflogedig fel cyfreithiwr

d) Cynghori (boed hynny yng nghwrs ymarfer neu gyflogaeth fel cyfreithiwr neu beidio) ynglŷn â rhoi'r gyfraith ar waith

e) Cynorthwyo (boed hynny yng nghwrs ymarfer o'r fath neu beidio) pobl sy'n rhan o achos er mwyn datrys materion sy'n codi o dan y gyfraith

f) Gweithredu (boed hynny yng nghwrs ymarfer o'r fath neu beidio) fel cyfryngwr yng nghyswllt ymdrechion i ddatrys materion sy'n destun achos neu a allai fod yn destun achos oni chânt eu datrys

g) Drafftio (boed hynny yng nghwrs ymarfer o'r fath neu beidio) dogfennau y bwriedir iddynt effeithio ar hawliau neu ar ddyletswyddau unigolyn

h) Addysgu neu wneud gwaith ymchwil yn y gyfraith

i) Unrhyw weithgaredd sydd, ym marn y sawl sy'n gwneud y penderfyniad perthnasol, o natur gyffredinol tebyg i weithgaredd ym mharagraffau (a) i (h)

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi darparu'r arweiniad canlynol

Bwriedir i gategori b) gwmpasu achosion o gyflafareddu lle caiff anghydfodau cyfreithiol eu datrys ar sail gymharol ffurfiol a strwythuredig. Er enghraifft, byddai'n cwmpasu achosion o gyflafareddu sy'n cael eu rheoli gan Ddeddf Cyflafareddu 1996, ac yn cael eu cyflawni gan unigolyn sydd wedi'i achredu gan gorff megis CEDR (Y Ganolfan Datrys Anghydfodau'n Effeithiol).

Bwriedir i gategorïau d) - g) hefyd gynnwys gweithgareddau a gyflawnir ar sail weddol ffurfiol, strwythuredig, er enghraifft gwirfoddolwyr sy'n rhoi cyngor cyfreithiol mewn canolfan gyfraith, neu mewn canolfan cyngor ar bopeth. Serch hynny, ni fwriedir iddo gynnwys (dyweder) rhywun sy'n rhoi cyngor anffurfiol i gyfeillion a chymdogion.

Bwriedir i gategori (e) gynnwys cymorth cyfreithiol, yn hytrach na mathau eraill o gymorth.

Bwriedir i gategori (g) gynnwys drafftio sy'n gofyn am grebwyll a medrusrwydd cyfreithiol, megis drafftio contractau a lesiau. Nid yw'n fwriad cynnwys drafftio a allai effeithio ar hawliau neu

ddyletswydd, ond sydd yn eu hanfod yn dasgau gweinyddol, e.e. llenwi gorchmynion gorfodi, neu hysbysiadau ynglŷn â chosbau.

Pwrpas (i) yw cynnwys rhai mathau o weithgarwch cysylltiedig â'r gyfraith na fyddent efallai'n gweddu'n union o dan (a) - (h).

Bydd eich ymwneud â gweithgareddau cysylltiedig â'r gyfraith am gyfnod yn cael ei ddiystyru os yw'r ymwneud hwnnw'n 'ddibwys o ran faint o amser a dreuliwyd ar y gweithgareddau hynny'.

Gwasanaeth blaenorol mewn swydd farnwrol

Fel arfer mae'r Arglwydd Ganghellor yn disgwyl i ymgeiswyr fod wedi gwasanaethu mewn swydd farnwrol ar sail gyflogedig neu am ffi am o leiaf ddwy flynedd neu fod wedi cwblhau 30 o ddiwrnodau eistedd cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

Oedran

Does dim uchafswm nac isafswm oedran ar gyfer ymgeiswyr, ar wahân i'r oedran ymddeol statudol, sef 70. Rhaid i oedran person a benodir ganiatáu cyfnod rhesymol o wasanaeth cyn ymddeol, sef tua dwy flynedd fel arfer.

Cenedligrwydd

Rhaid i chi lenwi datganiad cenedligrwydd ar y Ffurflen Gais. I fod yn gymwys ar gyfer y swydd hon, rhaid i chi fod yn ddinesydd:

- y Deyrnas Unedig; neu
- un o wledydd eraill y Gymanwlad; neu
- Weriniaeth Iwerddon

Cymeriad

Mae gofyn i'r Comisiwn, yn ôl statud, benodi pobl o gymeriad da'n unig. Er mwyn gwneud yr asesiadau hyn, rydym wedi datblygu Canllawiau ar Gymeriad Da sydd ar gael ar ein gwefan yn www.judicialappointments.gov.uk. Gallwch hefyd ysgrifennu atom a gofyn am gopi (mae ein manylion cysylltu yn adran 'Cysylltiadau a Rhagor o Wybodaeth' y Pecyn Gwybodaeth hwn).

Mae'r Canllawiau Cymeriad Da yn rhoi rhywfaint o syniad i chi a allai unrhyw beth yn eich ymddygiad yn y gorffennol neu yn eich amgylchiadau ar hyn o bryd effeithio ar eich cais am benodiad barnwrol. Dylech eu darllen yn ofalus cyn llenwi'r Ffurflen gais.

Cwestiynau ynglŷn â chymeriad da a datganiadau

Mae gofyn i chi ateb nifer o gwestiynau ynglŷn â chymeriad da ar y Ffurflen Gais a rhaid i chi roi datganiadau priodol yn ôl y gofyn.

Nid yw ymgeiswyr am swyddi barnwrol wedi'u gwarchod gan adran 4(2) a 4(3) Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974. Felly, dylid rhoi datganiad ysgrifenedig ynglŷn ag unrhyw euogfarnau a fyddai fel rheol yn cael eu hystyried yn euogfarnau sydd wedi dod i ben o dan y Ddeddf honno (Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975). Rhaid i chi roi manylion pob trosedd yr ydych wedi eich cael yn euog ohono neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad ag ef. Dylai'r manylion gynnwys natur pob trosedd, dyddiad yr euogfarn neu'r rhybuddiad a'r gosb a roddwyd.

Os oes achos o unrhyw fath ar y gweill, dylech roi manylion y trosedd yr ydych wedi'ch cyhuddo ohono neu'r broses ddisgyblu berthnasol ac, os gwyddys hynny, ddyddiad tebygol gwrando'r achos neu'r cam gweithredu. Mae'n bwysig i chi roi gwybod i ni am ganlyniad unrhyw achos a

gwblheir yn ystod cyfnod ystyried eich cais. Yn yr un modd, os cewch eich cyhuddo o unrhyw drosedd neu os dygir unrhyw achos yn eich erbyn ar ôl ichi gyflwyno'ch cais, dylech roi gwybod inni ar unwaith (gweler adran 'Cysylltiadau a Rhagor o Wybodaeth' y Pecyn Gwybodaeth hwn).

Ym mhob achos, rhowch gymaint o fanylion ag y gallwch gan ddweud a oes unrhyw ffactorau lliniaru y credwch y dylai'r Comisiwn eu hystyried wrth asesu'ch cymeriad da.

Archwilio cymeriad da

Bydd y Comisiwn hefyd yn cynnal archwiliad ar bob ymgeisydd y mae'n bwriadu ei argymell i'w benodi. Darperir rhagor o wybodaeth am yr archwiliadau hyn ar wahân ar gyfer ymgeiswyr perthnasol.

Os na fyddwch wedi datgan unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg yn sgil yr archwiliadau hyn, gallai hynny amharu ar ganlyniad eich cais.

Anghymwyso

Dylech nodi bod Deddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 yn berthnasol i'r swydd hon.

ADDASIADAU RHESYMOL

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ystyried gwneud unrhyw addasiadau rhesymol sy'n angenrheidiol i sicrhau y gallwch gymryd rhan yn deg yn y broses ddethol. Mae'r Ffurflen Gais yn gofyn i chi nodi unrhyw drefniadau ac addasiadau y gall fod eu hangen arnoch. Ystyrir ceisiadau fesul achos ac ni ddefnyddir yr wybodaeth a roddir wrth wneud penderfyniadau ynghylch dethol.

Os argymhellir eich penodi, ystyrir gwneud addasiadau rhesymol os oes gennych anabledd yn unol ag ystyr y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, fel y'u gwneir ar gyfer barnwyr sy'n gwasanaethu. Bydd unrhyw addasiadau rhesymol i'ch galluogi i dderbyn y swydd yn cael eu trafod ar wahân gyda chi gan y Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo ar ôl i'r CPB wneud ei argymhelliad.

DISGRIFIAD SWYDD

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi darparu'r wybodaeth ganlynol:

SWYDD BARNWR MEWNFUDO Y TRIBIWNLYS LLOCHES A MEWNFUDO

DISGRIFIAD SWYDD [a Nodiadau ar Awdurdodaeth]

1. **Swydd ac Awdurdodaeth**
   Yn gyffredinol, bydd pob Barnwr Mewnfudo yn gwasanaethu fel barnwyr unigol er mwyn penderfynu ar apeliadau tro cyntaf yn erbyn penderfyniadau a wneir gan y Llywodraeth ynghylch achosion lloches a mewnfudo. Fodd bynnag, efallai y cânt wahoddiad hefyd i eistedd ar banel o farnwyr. Mae'r patrwm eistedd presennol yn golygu y bydd gan Farnwyr Mewnfudo wrandawiad un diwrnod, ac un diwrnod ar gyfer ysgrifennu ei benderfyniad, am yn ail. Hefyd, rhaid cynnal dyddiau ysgrifennu yn y ganolfan gwrandawiadau a ddyrennir. Mae'r patrwm gweithio hwn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

   Disgwylir i Farnwyr Mewnfudo hybu amgylchedd colegol ar draws y sefydliad a chymryd rhan yn yr ymgyrch i gynnal a hybu ansawdd a chysondeb penderfyniadau'r Tribiwnlys.

2. **Prif Weithgarwch**

a. **Barnwrol**

Bod yn ymwybodol o'r datblygiadau cyfreithiol diweddaraf

- Meddu ar wybodaeth gadarn o'r gyfraith, Rheolau Trefniadaeth a Chyfarwyddiadau Ymarfer a bod yn ymwybodol o ddatblygiadau cyfreithiol.

Paratoi ar gyfer gwrandawiadau a rheoli achosion

- Paratoi ar gyfer gwrandawiadau drwy ddarllen a dirnad papurau mewn apêl neu gais cyn i'r gwrandawiad ddechrau, gan gynnwys astudio dogfennau ac adroddiadau ysgrifenedig.
- Rheoli achosion
    - Cynnal Adolygiadau Rheoli Achosion, dynodi materion hollbwysig yr apêl neu'r cais, a rhoi cyfarwyddiadau priodol i'r partïon, gan nodi pryd y bydd angen mwy o ddogfennau sy'n cynnig tystiolaeth.
    - Delio ag unrhyw faterion eraill yng nghwrs achos, fel bo angen.

Llywyddu dros wrandawiadau

- Rheoli (yn unol â'r gyfraith a'r ymarfer perthnasol) y modd y cynhelir apeliadau neu geisiadau.
- Sicrhau ei bod yn bosibl i'r partïon, boed y rheiny'n bresennol neu wedi'u cynrychioli ai peidio, gyflwyno eu hapêl neu eu cais, ac y caiff y rheiny eu hystyried, yn y modd llawnaf a thecaf bosibl, gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, cymryd yr awenau yn y gwrandawiad er mwyn sicrhau y trafodir yr holl faterion perthnasol, boed y rheiny wedi'u codi'n benodol gan y partïon ai peidio.
- Hybu'r ffordd gyflymaf o ymdrin â'r busnes sy'n gydnaws â buddiannau cyfiawnder.
- Cynnal awdurdod ac urddas y Tribiwnlys.
- Cadw cofnod llawn a chywir o'r dystiolaeth.
- Penderfynu ar faterion yn ymwneud â'r gyfraith a threfniadaeth a allai godi yn ystod apêl neu gais.

Eistedd fel aelod o banel

- Eistedd fel aelod o banel, yn ôl y gofyn.

Penderfynu ar Apeliadau

- Penderfynu ar apeliadau neu geisiadau drwy ganfod y ffeithiau, cymhwyso'r gyfraith sy'n berthnasol iddynt a chyflwyno penderfyniad ysgrifenedig rhesymedig gan gyfeirio at gyfraith a chanllawiau sefydledig a datgan beth yw'r penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.
- Cyflwyno unrhyw gyfarwyddiadau sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi'r penderfyniad ar waith.
- Cwblhau penderfyniadau i'w dosbarthu gan Staff Gweinyddol yn ddiymdroi ac o fewn yr amserlenni a osodir yn y Rheolau Trefniadaeth a/neu gan y Llywydd.

Amrywiol

- Cymryd rhan yn y cynlluniau gwerthuso perfformiad a mentora a dynodi anghenion hyfforddi a datblygu gyda'r Barnwr Mewnfudo Dynodedig.
- Os oes angen, ac yn unol â'r Cynllun Gwerthuso, cynnal gwerthusiadau o Farnwyr Mewnfudo eraill a darparu adborth priodol.
- Mynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol ac ymgymryd â hyfforddiant arall fel y bo'n briodol.
- Cymryd rhan, yn ôl y gofyn, mewn cynllun y tu allan i oriau swyddfa a fydd yn eich galluogi i lenwi bwlch adeg busnes Tribiwnlys brys.

Gweithio'n rhan-amser ar gyflog

Bydd modd gweithio'n rhan-amser ar gyflog gyda'r swyddi hyn, yn amodol ar anghenion y Tribiwnlys. Mae'r Tribiwnlys wedi rhoi gwybod ei bod yn ofynnol eistedd diwrnodau cyfan gydag isafswm o 60% i swyddi cyfwerth ag amser llawn. Bydd angen trafod a chytuno ar batrymau gweithio terfynol rhwng yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r Tribiwnlys adeg penodi. Mae penodiadau o'r fath yn barhaol ac yn amodol ar yr un telerau ac amodau gwasanaeth â phenodiadau amser llawn. Os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio'n rhan amser ar gyflog dylech nodi hyn ar y Ffurflen Gais; ni fydd y ffaith y byddai'n well gennych weithio'n rhan amser ar gyflog yn effeithio ar broses asesu rhinweddau eich cais mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag, os bydd y Comisiwn yn argymell eich penodi a bod yr Arglwydd Ganghellor yn derbyn yr argymhelliad hwnnw, caiff yr wybodaeth ei throsglwyddo i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Y BROSES DDETHOL

Ffurflen gais

Mae manylion y rhinweddau a'r galluoedd y cewch eich asesu ar eu cyfer wedi'u nodi isod ac yn y Ffurflen Gais. Gallwch sôn am holl ystod eich gwaith a'ch profiad personol er mwyn dangos bod gennych y rhinweddau a'r galluoedd hyn, gan gynnwys, er enghraifft, gwaith gwirfoddol neu unrhyw gyhoeddiad yr ydych wedi cyfrannu ato. Byddwch yn benodol wrth roi gwybodaeth.

RHINWEDDAU A GALLUOEDD

Bydd ymgeiswyr ar gyfer yr ymarfer dethol hwn yn cael eu hasesu ar sail y rhinweddau a'r galluoedd a ganlyn:

Mae'r galluoedd sydd wedi'u nodi â seren yn arbennig o berthnasol i'r swydd hon.

1. Gallu Deallusol *

- Lefel uchel o arbenigedd yn eich dewis faes.
- Gallu dirnad a dadansoddi gwybodaeth yn gyflym.
- Gwybodaeth briodol am y gyfraith a'r egwyddorion sy'n sail iddi, neu'r gallu i feddu'r wybodaeth hon lle bo angen.

2. Rhinweddau Personol

- Unplygrwydd a meddwl annibynnol.
- Crebwyll cadarn.
- Pendantrwydd.
- Gwrthrychedd.
- Gallu a pharodrwydd i ddysgu a datblygu'n broffesiynol.

3. Gallu i Ddeall Pobl a'u Trin yn Deg

- Gallu trin pawb â pharch a sensitifrwydd beth bynnag y bo'u cefndir.
- Parodrwydd i wrando'n amyneddgar ac yn gwrtais.
- Y gallu i alluogi partïon i gyflwyno'u hachos.

4. Awdurdod a Sgiliau Cyfathrebu

- Y gallu i esbonio'r weithdrefn ac unrhyw benderfyniadau a wneir yn glir ac yn gryno i bawb perthnasol.
- Gallu ennyn parch ac ymddiriedaeth.
- Gallu cynnal awdurdod yn wyneb her.

5. Effeithlonrwydd

- Gallu gweithio'n gyflym a than bwysau.
- Y gallu i drefnu amser yn effeithiol a rhoi dyfarniadau clir, ar sail rheswm ac yn ddi-oed.
- Y gallu i weithio'n adeiladol gyda phobl eraill, gan gynnwys sgiliau arwain a rheoli lle bo hynny'n briodol.

Amserlen

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau	**28 Ionawr 2010 (hanner dydd)**
Dyddiadau posib ar gyfer y profion cymhwyso	**15-22 Mawrth 2010**
Dyddiad(au) dros dro ar gyfer y diwrnodau dethol	**10-18 Mai 2010**

Llunio'r Rhestr Fer

Y cam nesaf yn y broses yw prawf cymhwyso. Y prawf cymhwyso fydd yr unig ddull a ddefnyddir i lunio'r rhestr fer ar gyfer diwrnodau dethol yr ymarfer dethol hwn.

Gwahoddir pob ymgeisydd cymwys i sefyll prawf ysgrifenedig. Mae'r dyddiad ar gyfer hyn ar hyn o bryd rhwng 15-22 Mawrth 2010.

Byddwch yn chwarae rhan y Barnwr Mewnfudo Cyflogedig a bydd gofyn i chi ddadansoddi'r wybodaeth a ddarperir, dynodi materion a defnyddio'r gyfraith i ddod i benderfyniad a'r rhesymau drosto.

Bydd y prawf yn astudiaeth achos yn seiliedig ar senario ffug a fydd yn codi materion cyfreithiol gweithdrefnol a chadarnhaol. Rhoddir y deunydd ategol perthnasol i chi ar ddiwrnod y prawf.

Canlyniad y prawf cymhwyso

Ar ôl y prawf, os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, byddwch yn cael eich gwahodd i ddiwrnod dethol. Detholir ymgeiswyr ar gyfer y diwrnod dethol ar sail canlyniadau'r prawf cymhwyso'n unig. Bydd pob rhinwedd a gallu y rhoddir manylion amdanynt yn cael ei asesu yn ystod cam y diwrnod dethol. Anfonir rhagor o fanylion gyda'ch gwahoddiad i fod yn bresennol. Mae'n ddrwg gennym na allwn roi esboniad ysgrifenedig i ymgeiswyr na chânt eu rhoi ar y rhestr fer.

Geirdaon

Mae'n bosibl y byddwn yn ceisio gwybodaeth gan bobl sydd yn y sefyllfa orau i roi sylwadau ynghylch i ba raddau ydych chi'n bodloni'r gofynion ynghylch rhinweddau a galluoedd. Cysylltir â chanolwyr fel arfer cyn i'r diwrnod dethol ddigwydd ac fe'u hanogir i ddefnyddio deunydd gwerthuso os yw ar gael. Fel arfer, bydd y deunydd a ddarperir gan y canolwyr yn cyfrannu at y penderfyniadau a wneir ar y diwrnod dethol, a byddant ar gael i'r Comisiynwyr pan wneir y penderfyniadau dethol terfynol.

Ni ddylai dim un ymgeisydd sy'n aelod o'r Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo enwebu'r Dirprwy Lywyddion, Mark Ockelton na Libby Arfon-Jones, fel canolwyr. Ni fydd yr un ohonynt yn darparu geirdaon ar gyfer y broses ddethol hon. Fodd bynnag, mae'n bosibl yr hoffech enwebu'r Uwch Farnwr Mewnfudo Preswyl.

Canolwyr a enwebir gan yr ymgeisydd

Fe'ch gwahoddir i enwebu hyd at dri chanolwr sy'n eich adnabod yn dda, naill ai'n bersonol neu'n broffesiynol. **Rydym yn argymell yn gryf i chi sicrhau nad yw hyn yn peri gwrthdaro rhwng buddiannau i'ch canolwyr.**

Canolwyr a enwebir gan y Comisiwn

Mae'n bosibl hefyd y bydd y Comisiwn yn gofyn am eirdaon gan y rheini a enwir yn yr adran 'Canolwyr a enwebir gan y Comisiwn' yn y pecyn hwn.

Rhowch enw, teitl, swydd a chyfeiriad eich canolwyr barnwrol a phroffesiynol. Cewch ddweud wrthym hefyd os nad ydych am i ni gysylltu â'ch canolwr proffesiynol perthnasol yn awr, ond rhaid i chi roi rhesymau dros hynny. Os nad ydych yn dal swydd farnwrol ar hyn o bryd ac nad ydych wedi enwi'ch canolwr proffesiynol perthnasol, rhaid i chi awgrymu canolwr arall sy'n gyfarwydd â'ch gwaith.

Diwrnodau dethol

Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, byddwch yn cael eich gwahodd i ddiwrnod dethol. Bydd y diwrnod dethol ar gyfer yr ymarfer hwn yn cynnwys cyfweliad gan banel a chyflwyniad. Anfonir rhagor o fanylion atoch gyda'ch gwahoddiad i fod yn bresennol. Darperir asesiadau cyffredinol y panel i'r Comisiynwyr pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau ynghylch dethol.

Ymgynghoriad statudol

Fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, bydd rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â'r Arglwydd Brif Ustus ac ail unigolyn, sydd wedi dal y swydd neu sydd â phrofiad perthnasol arall am yr ymgeiswyr hynny y mae'n bwriadu eu dethol. Yn achos yr ymarfer hwn, yr ail ymgynghorydd fydd Arglwydd Ustus Carnwath.

Archwilio cymeriad

Mae'n ofynnol mai dim ond pobl a chanddynt gymeriad da sy'n cael eu dethol gan y Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn cynnal archwiliadau ar yr holl ymgeiswyr sy'n debygol o gael eu hystyried i gael eu dethol, a bydd canlyniadau'r archwiliadau hyn, ynghyd â gwybodaeth y mae'r ymgeiswyr wedi'i chynnwys ar y Ffurflen Gais, yn cael eu hasesu.

Penderfyniadau ynghylch dethol

Gan eistedd fel pwyllgor, bydd y Comisiwn yn ystyried yr wybodaeth a gasglwyd am yr ymgeiswyr, a fydd yn cynnwys adroddiad asesiad cyffredinol y panel ar y diwrnod dethol, er mwyn dethol yr ymgeiswyr hynny i'w hargymell i'r Arglwydd Ganghellor.

Gofynnwyd i'r Comisiwn dan adran 94 y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol greu rhestr o bobl addas i'w penodi i'r swydd hon. Gellir penodi pobl o'r rhestr hon os bydd swyddi gwag yn codi. Ar hyn o bryd dylid llenwi 11 swydd wag ar unwaith o'r rhestr hon: Birmingham (2 swydd wag), Bradford (2 swydd wag), De Orllewin Llundain - Hatton Cross (5 swydd wag), Casnewydd (1 swydd wag) a Stoke (1 swydd wag).

Adroddiad i'r Arglwydd Ganghellor

Bydd y Comisiwn yn cyflwyno'i ddewisiadau terfynol i'r Arglwydd Ganghellor. Gall yr Arglwydd Ganghellor dderbyn neu wrthod yr argymhelliad hwn, neu ofyn i'r Comisiwn ailystyried. Ni chaiff yr Arglwydd Ganghellor ddewis ymgeisydd arall.

Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Rhestrir y Comisiynwyr Penodiadau Barnwrol ar gefn y pecyn hwn. Ni ddylech enwebu Comisiynydd yn ganolwr. Dylech nodi hefyd ar y Ffurflen Gais os ydych yn perthyn i unrhyw un o'r Comisiynwyr mewn unrhyw ffordd, neu os ydynt yn eich adnabod, gan roi'r manylion.

Canlyniad yr ymarfer dethol

Cewch wybod drwy lythyr am hynt eich cais.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y diwrnod dethol, cewch ofyn am esboniad ysgrifenedig. Dylech wneud y cais hwn o fewn chwe wythnos o ddyddiad y llythyr sy'n eich hysbysu nad ydych wedi bod yn llwyddiannus. Byddwn yn ceisio ymateb i'ch cais o fewn pedair wythnos gwaith.

Hyfforddiant

Darperir hyfforddiant ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus fel sy'n briodol ac yn ôl y gofyn.

Y drefn gwyno

Os nad ydych yn fodlon ar unrhyw agwedd ar y ffordd y cafodd eich cais ei drin, cyfeiriwch at y drefn gwyno sydd wedi'i chyhoeddi gan y Comisiwn. Mae honno ar gael ar ein gwefan, neu ar bapur, dim ond i chi ofyn.

Rhagor o wybodaeth

Gellir gweld telerau ac amodau'r swydd hon ar wefan y Comisiwn: www.judicialappointments.gov.uk . Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo ar gael yn: www.ait.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am broses ddethol a gofynion Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 ewch i'n gwefan: www.judicialappointments.gov.uk

CYSYLLTIADAU A RHAGOR O WYBODAETH

Cael ffurflen gais

Mae'r holl wybodaeth am wneud cais am yr ymarfer dethol hwn ar gael yn www.judicialappointments.gov.uk .

Cysylltwch â thîm Gwasanaeth Ceisiadau Penodiadau Barnwrol y Comisiwn os dymunwch gael copi papur o'r Ffurflen Gais neu'r Pecyn Gwybodaeth, neu os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â chyflwyno'ch cais.

Os oes angen y ffurflen a/neu'r pecyn arnoch mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn Braille, cysylltwch â thîm y Gwasanaeth Ceisiadau.

Cyflwyno'ch cais

Ar ôl llenwi eich Ffurflen Gais, dylech ei chyflwyno drwy ein proses ddiogel ar-lein drwy fynd i a chlicio ar ‘Submit your Application’.

Cydnabod eich cais

Pan fyddwch yn cyflwyno eich cais drwy ein proses ymgeisio ddiogel ar-lein, byddwch yn cael cydnabyddiaeth ar unwaith. Gallwch hefyd ofyn am gael neges awtomatig drwy e-bost yn cadarnhau bod eich cais wedi ein cyrraedd.

Os byddwch yn dewis anfon eich cais drwy’r post, dylech gael llythyr yn cydnabod ein bod wedi cael eich cais cyn pen pum niwrnod gwaith o’i gael. Os na fyddwch wedi clywed dim, cysylltwch â thîm y Gwasanaeth Ceisiadau drwy ffonio neu anfon e-bost.

Manylion cyswllt

1. Gwasanaeth Ceisiadau Penodiadau Barnwrol

Cyfeirnod: 00459 (Defnyddiwch y cyfeirnod hwn ar bob gohebiaeth)

Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol/Judicial Appointments Commission
3rd Floor, Steel House
11 Tothill Street
Llundain
SW1H 9LH

DX 149822 WESTMINSTER 6

E-bost: jaas@jac.gsi.gov.uk
Ffôn: 0203 334 0123

2. Tîm yr Ymarfer Dethol:

Sheila Newman	**0203 334 0082**	Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Andrew Le-Bigot	**0203 334 0321**	Dirprwy Reolwr yr Ymarfer Dethol
Chukwuma Uju	**0203 334 0106**	Arweinydd Tîm

Cyfeiriadau e-bost:

sheila.newman@jac.gsi.gov.uk

andrew.le-bigot@jac.gsi.gov.uk

chukwuma.uju@jac.gsi.gov.uk

tribunalsteamb@jac.gsi.gov.uk

Ffacs: 0203 334 0133

3. Cyfarwyddwr:

Sarah Gane **0203 334 0567**

E-bost: sarah.gane@jac.gsi.gov.uk

CANOLWYR A ENWEBIR GAN Y COMISIWN

Mae'n bosibl y bydd y Comisiwn hefyd yn gofyn am eirda gan y categorïau hynny a restrir isod.

Canolwyr barnwrol

Os ydych yn dal swydd farnwrol nad yw ar y rhestr hon, cysylltwch â'r CPB er mwyn inni allu ystyried pwy ddylai gael ei enwebu fel eich canolwr barnwrol.

- Os ydych yn eistedd ar y Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo, yr Uwch Farnwr Mewnfudo Preswyl.
- Os ydych yn eistedd ar Dribiwnlys ar wahân i'r Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo, Llywydd y Tribiwnlys neu rywun cyfatebol.
- Os ydych yn Gofiadur, y Barnwr Preswyl, y Barnwr Sifil Dynodedig neu'r Barnwr Teulu Dynodedig yn y llys(oedd) lle'r ydych yn eistedd amlaf.
- Os ydych yn Ddirprwy Farnwr Rhanbarth, y Barnwr Sifil Dynodedig lleol.
- Os ydych yn Ddirprwy Farnwr Rhanbarth Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu, yr Uwch Farnwr Rhanbarth (Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu).
- Os ydych yn Ddirprwy Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon), yr Uwch Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon).

Canolwr proffesiynol

- Os ydych yn dwrnai, yn atwrnai neu'n Gymrawd yn ILEX, eich partner rheoli neu'ch partner ecwiti perthnasol.
- Os ydych yn fargyfreithiwr, Pennaeth eich Siambrau neu, os ydych yng Ngogledd Iwerddon, eich uwch aelod o Lyfrgell y Bar.
- Os ydych yn adfocad, Deon Ffacwlti'r Adfocadau (yr Alban yn unig).
- Os ydych yn gyflogedig, eich rheolwr llinell neu rywun cyfatebol.

Rhestrir y Comisiynwyr Penodiadau Barnwrol ar gefn y pecyn hwn. Ni ddylech enwebu Comisiynydd yn ganolwr.

COMISIYNWYR Y COMISIWN PENODIADAU BARNWROL

Cadeirydd y Comisiwn

Y Farwnes Usha Prashar CBE

Aelodau

Mrs Ustus Jill Black DBE

Y Fonesig Lorna Boreland-Kelly DBE

Yr Athro Dame Hazel Genn DBE CF

Yr Arglwyddes Heather Hallett DBE

Syr Geoffrey Inkin OBE

Ei Hanrhydedd y Barnwr Frances Kirkham

Mr Edward Nally

Ms Sara Nathan OBE

Y Barnwr Rhanbarth Charles Newman

Ei Anrhydedd y Barnwr David Pearl

Mr Francis Plowden

Ms Harriet Spicer

Mr Jonathan Sumption OBE CF

Yr Arglwydd Ustus Roger Toulson